

Dydd Sul 21/11/21	9:45yb Mawl y Bore	5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein
Arwain	Michael	Mark
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Pedr	Enid W.
Darlleniadau	<i>Daniel 7: 9-10, 13,14; Actau 27: 1-26</i>	<i>Daniel 5; Ioan 6: 1-15</i>
Gweddïau	Rheinallt	Mair
Lluniaeth	Pedr a Non	
Pregethu	Michael	Mark

Dydd Sul 28/11/21	9:45yb Cymun Bendigaid	5:00yh Carolau Adfent ar-lein
Arwain	Mark	Siôn & Michael
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Non	
Darlleniadau	<i>Jeremeia 33: 14-16; Actau 27: 27-44</i>	<i>Darlleniadau Adfent</i>
Gweddïau	Menna	Emma
Lluniaeth	Jeff a Tony	
Pregethu	Mark	

29/11/21	7:00yh	Cyfarfod Pwyllgor y AWL
6/12/21	7:00yh	Gwasanaeth Carolau'r brifysgol a'r dref
19/12/21	9:45yb	Gwasanaeth Carolau i ddysgwyr a'u ffrindiau
19/12/21	5:00yh	Gwasanaeth Carolau ar-lein
25/12/21	9:30yb	Cymun y Nadolig

#### Gweinidog:

Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL. 01970 617184 eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

#### Gweinidogion eraill:

Parch. **Cei Rees**, 01970 617184 cei@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)  
Parch. **Liz Rees**, 01970 617184 liz@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)  
Parch. **Becky Evans**, 01970 617184 becky@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)  
Parch. **Robert Wilkinson**, 01970 617184 robert@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Iau)



**y Gair  
y Groes  
y Gymraeg**

21<sup>ain</sup> o Dachwedd 2021

**9:45yb Mawl y Bore**

**5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein**



#### Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Diolch am ddod heddiw. Gobeithio eich bod chi'n gallu aros i gael paned gyda ni ar ddiwedd y gwasanaeth.



Cynhelir Ysgol Sul i blant a phobl ifanc am 9:45yb.

Mae system dolen anwytho yn yr eglwys. Trowch eich teclyn clyw i'r gosodiad pwrpasol.



#### Ein Nod

Yn Eglwys y Santes Fair... rydym yn **creu cymuned** sy'n **caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist**.

#### Gweddï Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu, addewaist adeiladu dy eglwys. Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith. Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn yr ardal weinidogaeth hon. **Amen.**

[www.eglwysfair.cymru](http://www.eglwysfair.cymru)



Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth



@eglwysfair

## Newyddion Teulu'r Eglwys

### Cristion

Mae copiau o rifyn Tachwedd / Rhagfyr 2021 ar gael ar y ford yng nghefn yr Eglwys. Pris £1.50 yr un.

### Cyfrannu

Er nad ydyn ni'n gallu cynnal casgliad ffurfiol ystod ein gwasanaethau, mae basged yng nghefn yr Eglwys ar gyfer eich cyfraniadau tuag at waith yr eglwys. Os ydych chi am roi cyfraniad ar-lein, ewch i'n gwefan - [www.eglwysfair.cymru](http://www.eglwysfair.cymru)

### Carolau Adfent

Ymunwch â ni ar-lein ar gyfer ein gwasanaeth carolau Adfent nos Sul nesaf am 5:00yh ar-lein. Manylion *Zoom* yr un peth â Hwylol Weddi - gweler isod.

### Gwasanaethau ar-lein

Mae gwasanaeth ar-lein am 5:00yh bob nos Sul drwy raglen *Zoom*. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhwch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

## Daniel 7: 9-10; 13-14

### Yr Hen Ddihenydd a'r Un fel Mab Dyn

<sup>9</sup>Fel yr oeddwn yn edrych,

gosodwyd y gorseddau yn eu lle ac eisteddodd Hen Ddihenydd; yr oedd ei wisg cyn wynnied â'r eira, a gwallt ei ben fel gwllân pur; yr oedd ei orsedd yn fflamau o dân, a'i holwynion yn dân crasboeth.

<sup>10</sup>Yr oedd afon danllyd yn llifo allan o'i flaen. Yr oedd mil o filoedd yn ei wasanaethu a myrdd o fyrddiynau'n sefyll ger ei fron. Eisteddodd y llys ac agorwyd y llyfrau.

<sup>13</sup>Ac fel yr oeddwn yn edrych ar weledigaethau'r nos, Gwelais un fel mab dyn yn dyfod ar gymylau'r nef; a daeth at yr Hen Ddihenydd a chael ei gyflwyno iddo.

<sup>14</sup>Rhoddwyd iddo arglwyddiaeth a gogoniant a brenhiniaeth, i'r holl bobloedd o bob cenedl ac iaith ei wasanaethu.

Y mae ei arglwyddiaeth yn dragwyddol a digyfnewid, a'i frenhiniaeth yn un na ddinistrir.

## Actau 27: 1-26

### Paul yn Hwyllo tua Rhufain

<sup>1</sup>Pan benderfynwyd ein bod i hwyllo i'r Eidal, trosglwyddwyd Paul a rhai carcharorion eraill i ofal canwriad o'r enw Jwlius, o'r fintai Ymerodrol.

<sup>2</sup>Aethom ar fwrdd llong o Adramytium oedd ar hwyllo i'r porthladdoedd ar hyd glannau Asia, a chodi angor. Yr oedd Aristarchus, Macedoniad o Thesalonica, gyda ni. <sup>3</sup>Trannoeth, cyraeddasom Sidon. Bu Jwlius yn garedig wrth Paul, a rhoddodd ganiatâd iddo fynd at ei gyfeillion, iddynt ofalu amdano. <sup>4</sup>Oddi yno, wedi codi angor, hwylasom yng nghysgod Cyprus, am fod y gwyntoedd yn ein herbyn; <sup>5</sup>ac wedi inni groesi'r môr sydd gyda glannau Cilicia a Pamffylia, cyraeddasom Myra yn Lycia. <sup>6</sup>Yno cafodd y canwriad long o Alexandria oedd yn hwyllo i'r Eidal, a gosododd ni arni. <sup>7</sup>Buom am ddyddiau lawer yn hwyllo'n araf, ac yn cael trafferth i gyrraedd i ymyl Cnidus. Gan fod y gwynt yn dal i'n rhwystro, hwylasom i gysgod Creta gyferbyn â Salmone, <sup>8</sup>a thrwy gadw gyda'r tir, daethom â chryn drafferth i le a elwid Porthladdoedd Teg, nid nepell o dref Lasaia.

<sup>9</sup>Gan fod cryn amser wedi mynd heibio, a bod morio bellach yn beryglus, oherwydd yr oedd hyd yn oedd gŵyl yr Ymrydros drosodd eisoes, rhoes Paul y cyngor hwn iddynt: <sup>10</sup>“Ddynion, rwy'n gweld y bydd mynd ymlaen â'r fordaith yma yn sicr o beri difrod a cholled enbyd, nid yn unig i'r llwyth ac i'r llong, ond i'n bywydau ni hefyd.”

<sup>11</sup>Ond yr oedd y canwriad yn rhoi mwy o goel ar y peilot a meistr y llong nag ar eiriau Paul. <sup>12</sup>A chan fod y porthladd yn anghymwys i fwrw'r gaeaf ynddo, yr oedd y rhan fwyaf o blaid hwyllo oddi yno, yn y gobaith y gallent rywfodd gyrraedd Phenix, porthladd yn Creta yn wynebu'r de orllewin a'r gogledd-orllewin, a bwrw'r gaeaf yno.

### Y Storm ar y Môr

<sup>13</sup>Pan gododd gwynt ysgafn o'r de, tybiasant fod eu bwriad o fewn eu cyrraedd. Codasant angor, a dechrau hwyllo gyda glannau Creta, yn agos i'r tir. <sup>14</sup>Ond cyn hir, rhuthrodd gwynt tymhestlog, Ewraclon fel y'i gelwir, i lawr o'r tir. <sup>15</sup>Cipiwyd y llong ymaith, a chan na ellid dal ei thrwyn i'r gwynt, bu raid ildio, a chymryd ein gyrru o'i flaen. <sup>16</sup>Wedi rhedeg dan gysgod rhyw ynys fechan a elwir Cawda, llwyddasom, trwy ymdrech, i gael y bad dan reolaeth.

<sup>17</sup>Codasant ef o'r dŵr, a mynd ati â chyfarpar i amwregysu'r llong; a chan fod arnynt ofn cael eu bwrw ar y Syrtis, tynasant y gêr hwyllo i lawr, a mynd felly gyda'r lli. <sup>18</sup>Trannoeth, gan ei bod hi'n dal yn storm enbyd arnom, dyma ddechrau taflu'r llwyth i'r môr; <sup>19</sup>a'r trydydd dydd, lluchio gêr y llong i ffwrdd â'u dwylo eu hunain. <sup>20</sup>Ond heb na haul na sêr i'w gweld am ddyddiau lawer, a'r storm fawr yn dal i'n llethu, yr oedd pob gobaith am gael ein hachub bellach yn diflannu.

<sup>21</sup>Yna, wedi iddynt fod heb fwyd am amser hir, cododd Paul yn eu canol hwy a dweud: “Ddynion, dylasech fod wedi gwrandao arnaf fi, a pheidio â hwyllo o Creta, ac arbed y difrod hwn a'r golled. <sup>22</sup>Ond yn awr yr wyf yn eich cyngori i godi'ch calon; oherwydd ni bydd dim colli bywyd yn eich plith chwi, dim ond colli'r llong.

<sup>23</sup>Oherwydd neithiwr safodd yn fy ymyl angel y Duw a'm piau, yr hwn yr wyf yn ei addoli, <sup>24</sup>a dweud, ‘Paid ag ofni, Paul; y mae'n rhaid i ti sefyll gerbron Cesar, a dyma Dduw o'i ras wedi rhoi i ti fywydau pawb o'r rhai sy'n morio gyda thi.’ <sup>25</sup>Felly codwch eich calonnau, ddynion, oherwydd yr wyf yn credu Duw, mai felly y bydd, fel y dywedwyd wrthyf. <sup>26</sup>Ond y mae'n rhaid i ni gael ein bwrw ar ryw ynys.”